LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Mai / Mehefin 2024 Cyfrol 95 Rhif 3

## Pentecost - Yr Ysbryd Glân

Pan dan ni'n sôn am yr Ysbryd Glân, sôn am Dduw yr ydan ni. Nid rhyw bŵer ar wahân i Dduw yw'r Ysbryd Glân, ond Duw yn gweithredu. Trwy'r Beibl mae Duw yn cael ei gyflwyno fel 3 pherson sy'n cydweithio yn berffaith â'i gilydd mewn cariad tragwyddol. Er ei fod yn anodd ei ddeall - pwy sydd yn deall Duw yn gyflawn? – y mae Duw yn drindod. Duw y Tad, Duw y Mab a Duw yr Ysbryd Glân. Gwelwn hyn yn adnodau cyntaf y Beibl. Yno dywedir,

"Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu y bydysawd a'r ddaear. Roedd y ddaear yn anhrefn gwag, ac roedd hi'n hollol dywyll dros y dŵr dwfn. Ond roedd Ysbryd Duw yn hofran dros wyneb y dŵr. A dwedodd Duw, "Dw i eisiau golau!" a daeth golau i fod." Genesis 1:1-3.

Yma cyflwynir tri pherson y Drindod. Duw y Tad yn creu, Duw yr Ysbryd yn dod â threfn. A Duw y mab, Gair Duw yn y geiriau, "A dywedodd Duw, "Dw i eisiau golau!"

Actau 2
Nawr, fe ddaeth yr Ysbryd Glân mewn ffordd arbennig ar Sul y Pentecost fel yr addawyd gan y proffwydi ac Iesu Grist. Dywedodd y Proffwyd Joel fel hyn,

"Ar ôl hynny, bydda i'n tywallt fy Ysbryd ar y bobl i gyd.
Bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo; bydd dynion hŷn yn cael breuddwydion, a dynion ifanc yn cael gweledigaethau. (Actau 2:28)

Ac fe ddywedodd Iesu y byddai'r Ysbryd Glân yn cael ei anfon at ei ddisgyblion ar ôl iddo Ef adael y ddaear. Meddai yn Ioan 16:7:

(Parhad ar dudalen 6)

## Llanllanast

Cynhaliwyd Llanllanst y Pasg ychydig yn gynt na'r Ŵyl ei hun a hynny ar ddydd Sul 17eg o Fawrth. Roedd hon yn sesiwn pob oed a daeth criw da o deuluoedd, yn blant, rhieni ac oedolion at ei gilydd. Yn y sesiynau hyn mae bob amser ymdeimlad o fwrlwm ac egni wrth i'r plant fwynhau'r crefftau. Trwy y gweithgareddau amrywiol ar y 6 bwrdd cafwyd cyfle i siarad gyda phawb, dysgu'r ffeithiau sylfaenol am y Pasg, ac ystyried eu hystyr. Esboniodd Esyllt Jones pam ein bod yn bwytau wyau siocled dros yr Ŵyl, ac i gloi cafwyd cyflwyniad dramatig Agor y Llyfr am yr atgyfodiad, o dan arweiniad Catrin Roberts. Wedi hynny yr oedd y byrddau bwyd wedi eu paratoi ar gyfer pawb. Bore i'w gofio. Diolch i bawb o'r tîm am eu gwaith caled yn dod ar cwbl at ei gilydd mor effeithiol. *(Llun ar y dudalen gefn,)*



## Gorymdaith

Bendith fawr oedd cael ymuno gyda Gorymdaith y Pasg Cyngor Eglwys i'r Eglwys Newydd ar ddydd Gwener y Groglith. Daeth oddeutu 120 i gerdded gyda'n gilydd gan fynd trwy hanes y Croeshoelio fel y cyflwynir ef yn Efengyl Ioan. Cychwynnwyd yn brydlon am 9.30 gan ymweld â'r mannau addoli Sant Teilo, Canolfan yr Eglwys Newydd, Capel y Methodistiaid, Eglwys y Santes Fair, Bethel ac yn olaf Ararat. Fe gafodd Ebeneser y fraint o gynnal oedfa ddwyieithog fer yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd. Darllenodd John Hayes o Efengyl Ioan, cafwyd myfyrdod gan Alun Tudur a gweddi bwrpasol gan Catrin Roberts. Canwyd "Diolch i ti yr hollalluog Dduw" yn ddigyfeiliant a hynny yn hynod o effeithiol.

## Oedfa'r Groglith

Draw wedyn erbyn 2.00 i Eglwys Dewi Sant, lle y cynhaliwyd oedfa'r Groglith flynyddol Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Fe'n croesawyd yn gynnes iawn gan y Parch. Dyfrig Lloyd a phregethwyd yn amserol gan y Parch. Denzil John.

## Sul y Pasg

Ar Sul y Pasg 31/03 cafwyd dwy oedfa arbennig yn dathlu'r atgyfodiad o dan arweiniad Alun. Rhannwyd oedfa'r bore yn ddwy ran. Darllenodd Alison Jones yr hanes am y gwragedd yn mynd at y bedd o Mathew 28: 1 - 10. Cafwyd myfyrdod a gweddi gan y gweinidog. Yna, darllenodd Bethan Hayes hanes Tomos yn dod i gredu yn atgyfodiad yr Iesu, a hynny o Efengyl Ioan 20: 19 - 29. Cafwyd myfyrdod a gweddi pellach gan Alun yn pwysleisio fod yr atgyfodiad yn sioc aruthrol i'r disgyblion cyntaf. Bendith aruthrol oedd cael dathlu yr atgyfodiad gyda'n gilydd.



## Cyfrol gyffrous

Yn wreiddiol o Gaerdydd, mae Rhiannon Lloyd Williams, merch Dafydd a Buddug Williams, yr Eglwys Newydd, bellach yn byw yng Nghaernarfon. Ers ennill y Fedal Ddrama yn Eisteddfod T 2021, mae Rhiannon wedi cael ail wynt i sgwennu eto. Eisteddfod T oedd eisteddfod rhithiol gynhaliwyd yn ystod y cyfnod clo. Dwy ffrind yw Rhiannon a Sioned Medi Evans sydd wedi creu'r gyfrol wreiddiol, liwgar, 'Cant a Mil o Freuddwydion', gyhoeddwyd ym mis Ebrill gan Y Lolfa.

Dechreuodd y cyfan fel project ar y we ym mis Medi 2019, gyda Rhiannon yn sgwennu a Sioned yn darlunio, wedi i'r ddwy sylweddoli bod prinder straeon cyn cysgu i blant.

Dywedodd Sioned, "Mae'n anodd credu bod bron i bum mlynedd wedi hedfan heibio ers i mi a Rhiannon ddechrau cydweithio, y ddwy ohonom yn frwd i ddatblygu ein crefft fel awdur a darlunydd, gan greu straeon cyn cysgu i blant."

Mae'r ddwy wedi llwyddo i greu cyfrol gyffrous a deniadol, gyda chymeriadau a sefyllfaoedd cwbl Gymreig. Mae'r straeon hefyd yn cynnwys cymeriadau sy'n cael eu tangynrychioli, boed hynny oherwydd hil, anabledd neu rywedd rhieni.

Deg stori amrywiol sy'n berffaith i'w darllen cyn cysgu. O barot sy'n methu chwibanu i fwnci bo sydd wedi colli ei jeli, o'r dewin mwyaf doniol yn nheyrnas Dimlle, i ddewis y tŷ bach perffaith – mae yna stori at ddant pawb yn y llyfr.

## *Sul y Sanau*

Diolch i bawb gefnogodd 'Sul y Sanau' ar ddydd Sul, Mawrth 24ain. Llenwyd dau twba mawr gyda rhoddion o sanau ar gyfer y di-gartref yng nghanol Caerdydd. Ar brynhawn dydd Mercher ac ar y Sul, mae Ebeneser yn cefnogi cynllun Y Ganolfan Glyd, a leolir yn Eglwys Tabernacl, yr Ais Mae'r ymwelwyr sydd yn dod i'r ganolfan yn cael croeso, a chant loches cynnes a diogel yn ogystal â phryd o fwyd poeth a ddarperir gan dŷ bwyta Giovanni sydd drws nesaf i'r eglwys. Yn aml mae'r ymwelwyr yn gofyn am ddillad glân a chynnes ac felly fydd y mynydd o sanau a gyfran-nwyd ar Sul y Sanau yn gymorth mawr iddynt. (Llun ar y dudalen gefn)

## *Marie Curie*

Cafwyd rhoddion o £300 tuag at elusen Marie Curie er cof am Helen Hilling. Hoffai Shelagh a David ddiolch i bawb o aelodau Ebeneser a gyfrannodd at yr achos.

## *Llongyfarchiadau...*

...i Nia ac Ioan Evans ar enedigaeth Nanw Ora, wyres newydd i Gweneth ac Alun Evans.

## Penblwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Eynon a Delyth Williams ar ddathlu 40 mlynedd o briodas ar 27ain o Ebrill 2024. Buon nhw ar daith i Majorca i nodi'r achlysur cyn dychwelyd adre i gael cinio dathlu ar y dydd Sul canlynol gyda'r teulu cyfan. Mlaen i'r dathliad 50!

## Penblwydd Arbennig

Cyrhaeddodd Eilir Jones y garreg filltir o 60 mlwydd oed ar ddydd Iau, 9 fed o Fai. Cafwyd dathliad gyda'r teulu.

## Cydymdeimlad

Ar ôl dioddef o dementia am 19 mlynedd bu farw Rosaline Bowen yn 89 mlwydd oed ar y 4ydd o Fai. Ar ôl cyfnod yn Ysbyty Llandochau ac Ysbyty Dewi Sant, symudodd i fyw yn Nhŷ Enfys. Cydymdeimlwn â Helen a Dafydd Wyn a'r teulu cyfan. Bu coffâd amdani, yn dilyn y cymun pnawn ar Sul cyntaf Mehefin.

## Cymorth Cristnogol

Cynhaliwyd wythnos Cymorth Cristnogol o'r 12 - 19 Mai er mwyn codi arian at yr elusen. Testun yr wythnos oedd "Cariad Rhyfeddol" yn seiliedig ar bennod 13 o Lythyr Cyntaf Paul at y Corinthiaid. Daearwyd y neges trwy ddefnyddio stori Aline [ynganiad Aaaa-lîn] Nibogora o Burundi a wynebodd dlodi mawr.




Cafodd Aline gymorth gan bartneriaid Cymorth Cristnogol yn ei chymuned. Ar ôl derbyn hyfforddiant, roedd ganddi'r sgiliau a'r wybodaeth i sefydlu busnes bach a sefydlu Cymdeithas Cynilion a Benthyciadau i'r pentref gyda phobl leol eraill. Daeth Aline a'i chymdogion at ei gilydd i greu cronfa a oedd yn darparu benthyciadau i aelodau, yn ôl yr angen. Cymerodd Aline fenthyciad bach i sefydlu ei busnes ei hun yn gwerthu cnau daear ac afocados. Trwy ei busnes, mae Aline wedi gallu prynu beic, adeiladu ei chartref ei hun, cael gwell mynediad at ofal iechyd, ac addysgu ei theulu.

Dengys y stori hon bod ein cyfraniadau tuag at Gymorth Cristnogol yn gwneud gwahaniaeth mawr. Un o lawer yw Aline, ei theulu a'i chymuned. Diolch yn fawr iawn i chi am gyfrannu tuag at Wythnos Cymorth Cristnogol.

## Prif Weithredwr Cytûn



Llongyfarchiadau mawr iawn i Dr. Cynan Llwyd ar gael ei benodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Y mae hon yn swydd bwysig i hyrwyddo undod a chyd-weithredu rhwng y gwahanol draddodiadau Cristnogol yng Nghymru. Fel eglwys rydym yn eithriadol o falch o'r penodiad ac yn dymuno yn dda iddo yn y gwaith. Byddwn yn gweddïo yn gyson y bydd yr Arglwydd yn ei nerthu a'i arwain wrth gyflawni'r swydd hon.

Dywedodd Cynan yng nghyhoeddiad swyddogol Cytûn,

"Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael fy mhenodi'n Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn. Edrychaf ymlaen at gyd-weithio gyda'r eglwysi yng Nghymru wrth i ni geisio ewyllys Duw gyda'n gilydd, i ni "fod yn un fel dŷn ni yn un" (Ioan 17:22). "Mae'n gyfnod cyffrous a heriol i ni fel eglwysi a gweddïaf y tyfwn yn agosach at Dduw ac at ein gilydd dros y cyfnod sydd i ddod."

## 2 o 49!

Llongyfarchiadau mawr i Peter Spriggs ar gael ei anrhydeddu gan yr Orsedd. Felly hefyd i Meleri Tudur Thomas chwaer Alun. Byddan nhw'n cael eu hurddo mewn seremoni yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf fis Awst.

## Gwobr Ŵy-ch

Ar ddiwedd Llanllanast y Pasg fe ddosbarthwyd wyau Pasg "The Real Easter Egg," i'r rhai oedd wedi dod ac i'r teuluoedd oedd wedi methu dod y tro hwnnw. Gyda'r ŵy roedd llyfryn bach gyda hanes y Pasg, y Groes a'r Atgyfodiad a'r hyn ddigwyddodd i Iesu. Ac yn y llyfryn roedd posau i'w llenwi gyda gwobr os oeddech yn anfon yr atbeion cywir i'r cwmni. Llanwodd Megan – merch Llinos ac Andrew Brown ac ŵyres Delyth ac Eynon Williams y posau a'u postio i'r cwmni. Ar ôl hir a hwyr fe ganodd y ffôn gyda'r neges wych fod Megan wedi ennill gwobr, trwy Wledydd Prydain, o £50.00. Llongyfarchiadau t–ŵymgalon i Megan ar ei champ.

## Mwyniant Mai

Ar ddydd Mercher 22ain o Fai, am 5:00 y pnawn, cynhaliwyd cyngerdd bach yn yr Eglwys Fethodistaidd, gan Ysgol Melin Gruffydd, cyn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod. Cafwyd perfformiadau gwych a hyderus gan y plant. Derbyniwyd cyfraniadau at gostau cystadlu'r ysgol yn yr Eisteddfod. Dymunwyd yn dda iddynt ym Maldwyn.

**Parhad o'r dudalen flaen.)**

"Yr wyf fi'n dweud y gwir wrthych: y mae'n fuddiol i chwi fy mod i'n mynd ymaith. Oherwydd os nad af, ni ddaw'r Eiriolwr atoch chwi. Ond os af, fe'i hanfonaf ef atoch."

## Sul y Pentecost

Ac ar Sul y Pentecost fe ddaeth yr Ysbryd Glân mewn grym anghyffredin er mwyn cymhwyso gwaith achubol yr Arglwydd Iesu. Dangosodd i'r disgyblion yn glir beth oedd arwyddocâd bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu gan roi doniau arbennig iddynt i rannu'r newyddion da gydag eraill. A dyma sut mae Iesu gyda ni bob amser hyd ddiwedd y byd, trwy bresenoldeb yr Ysbryd. Nid ydym byth ar ein pennau ein hunain, nid ydym byth yn ddi-rym. Pan mae person yn credu yn Iesu y mae'n derbyn yr Ysbryd Glân. Nid rhai pobl sbesial ond pob un sy'n credu. Yn 1 Corinthiaid 6:19 mae Cristnogion yn cael ei disgrifio fel teml i Dduw, oherwydd bod yr Ysbryd Glân ynddynt.

"Ydych chi ddim yn sylweddoli fod eich corff chi'n deml i'r Ysbryd Glân? Mae'r Ysbryd yn byw ynoch chi - mae wedi ei roi'n rhodd i chi gan Dduw. Dim chi biau eich bywyd; mae pris wedi ei dalu amdanoch chi. Felly defnyddiwch eich cyrff i anrhydeddu Duw."

Yr Ysbryd Glân yw anadl einioes yr eglwys ac hebddo ni fydda'r eglwys yn bodoli na'n tystiolaeth yn effeithiol. Llawenhawn y Pentecost hwn yn y gwirionedd fod yr Ysbryd Glân gyda ni heddiw yn ein calonnau ac yn ein plith fel eglwysi yng Nghymru.

### Ffynhonnau Byw




Cofiwch ein bod wedi mabwysiadu elusen ddewisedig yr Undeb, sef Apêl Cymorth Cristnogol Ffynhonnau Byw. Mae rhai cynlluniau eisoes ar y gweill i godi arian, a bydd mwy i'w adrodd yn fuan.




## Tad Nefol

Rydym yn edrych ar weddi yn ystod y gyfres hon, er mwyn annog ein gilydd i weddïo ac i sylweddoli nad rhywbeth sy'n digwydd yn unig mewn oedfa yw gweddi, ond ei fod yn rhan hanfodol o fywyd pob dydd y Cristion.

Gweddi yw siarad gyda Duw. Cynnal sgwrs gydag ef. Mae Duw wedi ein creu i fyw mewn perthynas gydag ef. Stori hyfryd sy'n darlunio gweddi i mi yw hanes y ddau yn cerdded gydag Iesu yn ôl adref i Emaus wedi'r atgyfodiad. Maent ar daith ac mae'r Iesu gyda hwy. Maent yn siarad a thrafod ac mae Iesu yn esbonio'r ysgrythurau iddynt. Maent yn cael eu calonogi ac yn sylweddoli fod yr Iesu wedi atgyfodi. Felly ninnau. Taith yw bywyd, a thrwy ffydd yn Iesu y mae O gyda ni, nid yn gorfforol, ond trwy'r Ysbryd Glân.

Dewch i ni nawr edrych yn fanwl ar weddi'r Arglwydd.

### Dylech Weddïo

Wrth gyflwyno'r weddi dywed Iesu wrth y disgyblion, "Dyma sut dylech chi weddïo": h.y. y mae'n gosod patrwm syml, sy'n cynnwys prif elfennau gweddi. Yn arferol nodir y 5 peth canlynol fel prif elfennau gweddi: addoliad, cyffes, deisyfu (gofyn am rywbeth), eiriolaeth (gweddïo dros rywun arall), a diolchgarwch. Nid yw'r 5 elfen ym mhob gweddi ond wrth weddio yn gyson byddwn yn cyffwrdd pob un ohonynt yn eu tro.

Mae Iesu'n cymryd yn ganiataol fod Cristnogion yn gweddio gyda'i gilydd. Yn y lluosog y mae'n rhoi'r cyfarwyddyd "Felly, gweddïwch chwi fel hyn" (Mat 6:9) meddai. Mae gweddio gyda chyd-gristnogion yn rhan hollbwysig o fywyd y Cristion a'r eglwys Gristnogol; i ddweud y gwir mae'n anadl einioes iddi.

### Ein

Geiriau cyntaf ei weddi yw, **"Ein Tad".** Sylwch eto mai yn y lluosog nid yr unigol y mae rhain. Nid "fy nhad" ond "ein Tad" ac mae hyn yn dweud rhywbeth amdanom ni ac am Dduw. Er bod ein perthynas gyda Duw yn un personnol, nid yw hynny yn golygu mai perthynas breifat unigolyddol ydyw. Gwelwn yr un egwyddor yn y 10 gorchymyn. Mae'r 4 cyntaf yn cyfeirio at ein perthynas gyda Duw ac mae'r 6 dilynnol yn sôn am ein perthynas gydag eraill. Hynny yw, y mae ein haddoliad o Dduw wedi ei blethu gydag ein hymwneud â'r bobl sydd o'n cwmpas. Rydym felly i gychwyn ein gweddiau trwy gydnabod ein bod yn rhan o gymuned o bobl, yn frodyr ac yn chwiorydd i'n gilydd, oherwydd ein bod yn blant i'r Tad nefol.

**Tad**

Yr ail air yw **Tad.** Golyga hyn nifer o bethau.
1. Golyga ein bod wedi ein creu gan Dduw.
2. Golyga ein bod wedi ein mabwysiadu ganddo i fod yn blant iddo. Mae darn hyfryd am hyn yn y Llythyr at y Rhufeiniaid,

"Dydy'r Ysbryd Glân dyn ni wedi'i dderbyn ddim yn ein gwneud yn gaethweision ofnus unwaith eto! Mae'n ein mabwysiadu ni yn blant i Dduw, a gallwn weiddi arno'n llawen, "Abba! Dad!" Ydy, mae'r Ysbryd yn dangos yn glir i ni ein bod ni'n blant i Dduw." - Rhufeiniaid 8: 15 - 17

Mor rhyfeddol yw'r ffaith ein bod trwy Iesu yn gallu galw ein hunain yn blant Duw,

3. Golyga ein bod, trwy alw Duw yn dad, yn cydnabod ei hawl arnom a'n bod yn ddibynnol arno.
4. Golyga fod ganddo Ef ofal trosom, fel rhiant yn gofalu am ei blant.
5. Golyga fod Duw ein Tad, yn darparu ar ein cyfer.

*Awn ymlaen y tro nesaf i edrych ar y cymal dilynol.*

---

**Wythnos gwirfoddolwyr 3ydd I'r 9fed o Fehefin 2024 - Dai DJ**

Mae buddion gwirfoddoli yn mynd ddwy ffordd - gall helpu eraill fod y ffordd orau i helpu ein hunain. A dweud y gwir, mae yna lawer iawn o resymau a buddion y tu ôl i fod yn wirfoddolwr. Mae'n gyfle i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, ennill sgiliau newydd, ac yn bersonol, mae'n helpu fy iechyd meddwl a lles.

Ond pam Radio Ysbyty? Mae gwirfoddoli ar gyfer radio ysbyty yn cynnig buddion anhygoel. Rydych chi'n darparu cysur ac adloniant i gleifion, gan fywiogi eu diwrnod ar adegau anodd. Mae'n gyfle unigryw i ddatblygu sgiliau darlledu, ennill profiad, a chwrdd â phobl newydd. Hefyd, mae'n ffynhonnell greadigol lle gallwch chi rannu eich angerdd am gerddoriaeth, adrodd straeon a dweud jôcs dad!. Rydych chi'n teimlo'r wobr o roi yn ôl yn enwedig pan fyddwch chi'n chwarae'r trac sy'n mynd â chi yn ôl mewn amser.

Yn ddiweddar, yn ystod wythnos iechyd meddwl a lles roeddem yn falch o gefnogi'r sioe iechyd a lles meddwl a gynhaliwyd yn Stadiwm Dinas Caerdydd, a oedd yn cynnal llu o gynadleuwyr yn arddangos amrywiaeth o gyfleoedd cymorth sydd ar gael.

Pam na ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth ewch i: https://www.rookwoodsound.com/

*Dafydd Williams*




## *Llanw 2024 o'r 1af i'r 5ed o Ebrill.*

Cynhaliwyd Gŵyl Gristnogol Llanw eleni yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Bu rhwng 300 a 400 yn mwynhau'r ŵyl a braf oedd cael cwmni mynychwyr am y dydd. Dyna braf oedd gallu dathlu ac addoli yng nghwmni ein gilydd, gan fwyta gyda'n gilydd mewn neuadd fwyta fawr ac aros ar un safle. Roedd yn gyfle i bobl eistedd gyda rhywun gwahanol bob dydd, i frecwast, cinio a swper a dod i adnabod ein gilydd yn well. Dyna braf oedd cwrdd â ffrindiau hen a newydd, ac roedd safon y bwyd yn fendigedig.

Dathlu'r Atgyfodiad oedd testun yr ŵyl eleni. Nos Lun y Pasg oedd y rhan fwyaf yn cyrraedd a chafwyd pryd o fwyd cyn mynd i Ddathliad Pob Oed. Meilyr Geraint ac Adlais oedd yn arwain yr addoliad, a'i dad Martyn Geraint yn arwain y dathliad.

Arfon Jones oedd y prif siaradwr yn oedfaon y bore a'i destun dros tair oedfa oedd Cwrdd â Iesu – Ble ydyn ni arni?, Duw yn teyrnasu ac Yr Ysbryd yn nerthu. Arweinwyr addoliad y nos oedd Heulwen Davies a Steffan Morris. Yn ystod y dydd wedyn roedd cyfle i fwynhau adnoddau Llangrannog, gwaith plant a gwaith ieuenctid, gweithdai crefft, paneli trafod, sgyrsiau, ac ar ddydd Mawrth roedd taith gerdded i Gwmtydu. Tipyn o fynd i fyny ac i lawr ond yn werth pob cam. Sôn am ardal braf. Adlais, Caersalem Caernarfon, ac Emaus y Bala oedd yn gyfrifol am arwain yr addoliad yn y boreau a nos yn eu tro dros yr ŵyl.

Mae'r gwaith plant yng ngŵyl Llanw wastad o safon, gyda thîm eang yn darparu gweithgareddau amrywiol i gyd-redeg â'r prif wasanaethau dyddiol. Mae'n siŵr fod criw o tua 60 o blant yno eleni wedi eu rhannu o ran oed. Eleni, roedd Siwan Jones, gynt o Ebeneser, ac hefyd Adam Colman, yn rhan o'r tîm boreol. Ar gyfer un sesiwn nos, bu Luned a Huw Aaron, Gwilym Jeffs a Carys Mair yn arwain, gyda thema'r Aifft a stori Moses yn ganolog. Roedd y plant yn fywiog ac yn cael hwyl, a Huw yn edrych yn 'dapper' iawn mewn het Indiana Jones! Roedd ieuenctid blwyddyn 7-11 oed yn aros yn y prif oedfaon yn y nos.

Gyda holl adnoddau a gweithgareddau Gwersyll yr Urdd ar gael hefyd, yn ogystal â'r traeth cyfagos, cafodd y plant a'r ieuenctid amser llawen a llawn yn Llanw!

*Tudur Jones a Huw Aaron*

Ffynhonnau Byw




**Bwyta a chymdeithasu.**
Roedd nos Iau, 23ain o Fai yn gyfle hyfryd i ddod at ein gilydd i fwyta a chymdeithasu ym mwyty ‘Wings of Glory’, Glanyrafon. Cafwyd noson yn blasu gwahanol fyr-brydau Colombiaidd cyn cael prif gwrs, a phwdin hynod o felys. Cynhaliwyd raffl i chwyddo’r coffrau, a chwis heriol hefyd i brofi gwybodaeth gyffredinol y clyfra o’n plith. Braf yw dweud bod tua £255 wedi’i godi ar gyfer elusen Ffynhonnau Byw. (2 lun ar y dudalen gefn)

---

**O Dduw, rho im dy Ysbryd,**

O Dduw, rho im dy Ysbryd,
dy Ysbryd ddaw â gwres,
dy Ysbryd ddaw â’m henaid
i’r nefoedd wen yn nes;
dy Ysbryd sy’n goleuo,
dy Ysbryd sy’n bywhau,
dy Ysbryd sydd yn puro,
sancteiddio a dyfrhau.

Dy Ysbryd sydd yn cynnal
yr eiddil, gwan ei ras,
yn nerthu’r enaid egwan
sy’n ofni colli’r maes;
dy Ysbryd sy’n gwasgaru
pob cwmwl tywyll, du;
gwna fi drwy nerth dy Ysbryd
yn gadarn ac yn hy.

Dy Ysbryd sydd yn cynnal
yr eiddil, gwan ei ras,
yn nerthu’r enaid egwan
sy’n ofni colli’r maes;
dy Ysbryd sy’n gwasgaru
pob cwmwl tywyll, du;
gwna fi drwy nerth dy Ysbryd
yn gadarn ac yn hy.

**DAFYDD WILLIAM, 1721?-94**
**Caneuon Ffydd 580**

---

**Cyfnod Sabothol ychwanegol**
Gan fod Alun wedi cymryd nifer o angladdau yn ystod ei gyfnod Sabothol cyntaf, bydd yn cael cyfnod ychwanegol o fis yn ystod mis Gorffennaf, cyn cael ei seibiant arferol dros fis Awst. Edrychwn ymlaen ato’n adrodd yn ôl i ni nes ymlaen eleni, ar ôl iddo ddychwelyd atom fis Medi. Pob bendith iddo a Vikki dros yr haf.

**Teyrnged** | *Melora Parry 1928 - 2024*

Deuai Melora o Ystalyfera, Cwm Tawe. Roedd yn un o dri o blant i Joe a May Rees. Enw ei brawd oedd Glen a Mari oedd ei chwaer. Pan yn ifanc bu'n sâl ac fe aeth i ymadfer yng nghartref ei hewythr, sef y Parch. Giraldus a'i briod Nan, yn Ffaldybrenin. Wedi dyddiau ysgol aeth i hyfforddi fel athrawes yng Ngholeg y Barri a bu'n gweithio ym myd addysg trwy gydol ei hoes. Cyfarfu â Don wrth deithio ar y bws o Abertawe. Priodasant yng nghapel Panteg a daethant i fyw i Gaerdydd. Yma, ym 1962 ganwyd Alun, cannwyll llygad ei fam a thros y blynyddoedd bu ei chariad a'i gofal trosto yn fawr. Sioc enbyd i'r teulu oedd marwolaeth ddisymwth Don ychydig fisoedd wedi iddo ymddeol.

Bu Non (ei nith) yn gymorth i Melora ac Alun tros y blynyddoedd, a diolch iddi am hynny. Dau arall a fu'n help mawr iddi, oedd Delyth ac Eynon Williams.

Dyma dri pheth am Melora, roedd yn Gyfaill, yn Gymeriad ac yn Gristion.

**Cyfaill** - Wrth ffarwelio gyda Melora heddiw rydym yn ffarwelio gydag un oedd yn ffrind. Doedd Melora ddim yn berson swil; i'r gwrthwyneb roedd yna ryw hunanhyder cynhenid yn perthyn iddi. Golygai hyn ei bod yn barod i siarad a dweud ei barn. Roedd yn ffrind i lawer ac yn dangos gofal trwy ffonio, llythyru ac ymweld.

**Cymeriad -** Roedd yn gwmni da ac roedd hwyl i'w gael yn ei chwmni. Gallai fod yn ddoniol ac yn ddwys, yn ddifrifol ac yn ysgafn, yn feirniadol ac yn galon dyner, a hynny i gyd ar yr un pryd. Roedd yna weithiau elfen "extravagant" a "glamorous" yn perthyn iddi, yn ei gwisg a'i hosgo. Gallai yn rhwydd fod wedi bod yn actores ar y llwyfan yn swyno cynulleidfaoedd a'i doniau.

**Cristion** - Cofiaf hi yn dweud fwy nac unwaith ei bod hi wedi dod i ffydd wrth fynd i gyfarfodydd gan y Brethren gyda Don. Derbyniodd Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd ar ei bywyd. Roedd y profiad hwn yn un a adawodd ei ôl arni am weddill ei hoes. Mae ei chyfraniad i ni fel teulu ffydd yn Ebeneser wedi bod yn fawr o ran gweithgarwch a dylanwad.


Mae'r newyddion da Cristnogol yn syml. Rydym wedi gwrthryfela yn erbyn Duw a thorri'r cysylltiad gydag Ef, ond y mae Duw, yn ei gariad, wedi trefnu ffordd i ddod â ni yn ôl ato trwy Iesu. Rhoddwyd Ef yn aberth dros ein pechodau ar y groes fel y cawn faddeuant llwyr trwy gredu ynddo a chael ein cymodi gyda Duw. A chyda hyder yn y newyddion da hwn y ffarweliwn gyda Melora gan ddiolch i'r Arglwydd am bob bendith a gafodd ac am bob bendith a gawswom o'i hadnabod.

## Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Dyma gyfle i ymuno mewn cyfres o sesiynau fydd yn archwilio Addoli a Phregethu, ac yn eich arwain ar daith drwy'r Beibl.**

## Addoli a Phregethu

Tiwtor: Parchedig Carwyn Siddall



Mae gwahanol fathau o addoliad, yn cynnwys addoliad pob oed, gwasanaethu mewn ysgolion, a gwasanaethau byr wrth ymweld ag aelwydydd. Mae cynnwys addoliad hefyd yn gallu amrywio, megis oedfa bregethu, oedfa pryd y gweinyddir un o'r sacramentau, neu oedfaon ar gyfer achlysur penodol megis priodas neu angladd.

Bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i archilio'r amrywiol fathau, ac ystyried sut y dylid mynd ati i baratoi ac arwain oedfaon o wahanol fathau.

**Dyddiadau:** 20, 27 Mai, 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 7:00 – 8:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

## Deall yr Ysgrythurau: Y Beibl

Tiwtor: Arfon Jones



Yn allweddol i'r ffydd Gristnogol mae'r hyn a ddatguddir i ni drwy Air Duw, ac a gofnodir yn y Beibl. Drwy'r modiwl hwn, cynigir cyfle i'r sawl sy'n dilyn y modiwl gael dealltwriaeth ddyfnach o agweddau gwahanol o gynnwys y Beibl, ac astudio themâu penodol ohono.

**Dyddiadau:** 3, 10, 17, 24 Mehefin, 1, 8, 15, 22 Gorffennaf.

**Amser a Lleoliad:** 8:00 – 9:00 o'r gloch yr hwyr, ar Zoom.

**Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn y sesiynau uchod, a gellir dilyn un ohonynt yn unig, neu'r ddau.**

**Dyma'r modiwlau disgwyliedig ar gyfer cymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig hefyd. Os mai dyna eich dymuniad, nodwch hynny wrth gofrestru.**

**I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru**

## Gwasanaethau ar CD

Os hoffech gael copi o'r gwasanaethau ar y Sul ar CD, cysylltwch gyda Tudur Jones.

## Bwydydd sychion a thun

Mae elusen Enfys Gobaith yn ddiolchgar iawn o'r bwyd yr ydych wedi eu cyfrannu yn ystod y misoedd diwethaf. Maent yn cael eu rhoi yn gyson i'r anghenus yma yng Nghaerdydd. Diolch i chi am eich haelioni. Byddwn yn casglu bwydydd sychion yn ystod yr wythnos gyntaf lawn o bob mis. Os hoffech gyfrannu, tuniau llysiau, ffrwythau, cig, pysgod, cawl, ffa ayyb; pasta, reis, te, coffi, llaeth UHT byddem yn dra diolchgar. Cysylltwch gyda Tudur Jones er mwyn trefnu casglu.



## Y Ganolfan Glyd

Byddai'r Tabernacl yn y Ais yn gwerthfawrogi cyfraniadau o siwmperi, sannau a chotiau. Cysylltwch â John Hayes. (john_hayes1@hotmail.com).

**E-bost:** Os hoffech dderbyn ebost wythnosol Ebeneser anfonwch neges at: eben-esercaerdydd1@gmail.com

## Recordiadau

Gellir gwrando ar holl bregethau Eben-eser ar wefan Soundcloud. Maent yn cael eu gosod yno'n wythnosol. Diolch i Tudur. Gellir gwylio ffrwd byw o oedfa bore Ebeneser ar ein tudalen Facebook ac yna ar Youtube. Diolch yn fawr iawn i Seren Jones am ei help.

## Tîm Digidol

Rydym yn chwilio am aelodau i helpu gydag ochr ddigidol bywyd Ebeneser. Bellach yn wythnosol y mae elfennau digidol sydd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth. e.e., PowerPoints, ffrwd byw, podlediad, Youtube, Trydar ('X'), Gweplyfr (Facebook), cryno ddisgiau o'r oedfaon a'r wefan.

## Gosod a Gofal

Hoffem ddiolch i'r holl aelodau sydd yn cynorthwyo gyda gosod popeth yn ei le ar fore Sul. Diolch i Eynon am baratoi'r rota ac i Tudur, John a Petra am eu holl help.

---

## CYFRANIADAU

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch sydd wedi anfon cyfraniadau at waith Eglwys Ebeneser yn ystod 2023. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn eich haelioni tuag at waith hollbwysig yr Arglwydd Iesu trwy gyfrwng Ebeneser. Mae nifer o aelodau bellach yn cyfrannu'n fisol trwy archeb banc. Os nad ydych eto wedi cael cyfle i gyfrannu hoffem eich gwahodd i barhau i gyfrannu at waith yr eglwys, yn ystod 2024, un ai: trwy siec yn daladwy i Eglwys Ebeneser Caerdydd, at y Trysorydd, Eilir Jones, 9 Clos y Bryn, Caerdydd. CF14 6TR. Neu, taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc HSBC yr Eglwys – cod sortio 40-16-35, rhif y cyfrif 81042882, gan nodi eich enw fel cyfeirnod.

**Cyfarfodydd Angor**

BAY CHURCH
GRANGETOWN



## Lleoliad Newydd i Angor

**Diolch i Dduw am:**

* Y lleoliad newydd i gwrdd ynddo yn Grangetown (Bay Church, Corporation Rd). Mae ystafelloedd gwahanol i'r gwaith plant, a lle i'r gynulleidfa dyfu.

* Cyfle i rannu am Angor ar ffilm. Daeth Rhodri Darcy draw i ffilmio ar ran yr Annibynnwyr.

* Teuluoedd ac unigolion newydd yndod ac yn cyd-addoli.

**Ymunwch gyda ni i weddïo am:**

* Weithwyr/gwirfoddolwyr i ddechrau clwb plant yn yr ardal mis Medi.
* Wynebau newydd i ymuno, ac i rai o'r ardal sydd ddim eto yn nabod Iesu i'w gyfarfod a'i adnabod

**Dros y misoedd nesaf bydd:**

* Cyfres nesaf o bregethau ar yr Ysbryd Glân a'i waith
* Y Bwrdd' pob trydydd Sul y mis ble bydd cyfle i ddod at ein gilydd i fwyta a chymdeithasu.

**Yn ystod Suliau mis Mai, Mehefin a Gorffennaf:**
**Cyfres "Yr Ysbryd Glân."**

**9 Mehefin - Elliot Mayor - "Yr Ysbryd yn Annog."**
**16 Mehefin - Y Bwrdd.**
**23 Mehefin - Cynan Llwyd neu Gwilym Jeffs -**
**"Yr Ysbryd yn Arwain"**
**14 Gorffennaf - I'w drefnu -**
**"Yr Ysbryd yn eiriol drosom ni."**




Cynhelir oedfa'r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa'r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA. .

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau Mehefin

**2 Mehefin** - 10.00yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Cymun yn y pnawn. Oedfaon dan ofal Alun.
**9 Mehefin** - 10.00yb yn CEN a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun.
**16 Mehefin** - 10.00yb yn CEN Oedfa a Llanllanast.
3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon dan ofal Alun.
Cymun yn y bore.
**23 Mehefin** - 10.00yb yn CEN: a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd: Oedfaon yng nghwni John Robinson, Caernarfon.
**30 Mehefin** - 10.00yb Llanllanast plant yn CEN: a 3.00yp Yr Eglwys Fethodistaidd: Oedfaon dan ofal Alun.

## *Linguae Christi*

Mudiad cenhadol diddorol i ni fel Cristnogion Cymraeg ein hiaith yw Linguae Christi (Ieithoedd Crist). Gweledigaeth y mudiad hwn yw cyhoeddi'r newyddion da Cristnogol yn Ewrop, a hynny'n arbennig ymhlith pobl sy'n siarad ieithoedd brodorol lleiafrifol, gyda'r bwriad o sefydlu eglwysi. Mae'r grwpiau ieithyddol hyn yn cynnwys 165 o ieithoedd gyda chyfanswm o 100 miliwn o siaradwyr o Bortiwgal yn y Gorllewin i Siberia yn y Dwyrain.

**Nos Sadwrn, 22 Mehefin -** 7:00 yh yng Nghaffi'r Eglwys Fethodistaidd: John Robinson yn siarad am Linguae Christi.



2 dwba Sul y Sanau



Dathlu'r Pasg yn Llanllanast



Dai DJ




Llyfrynnau Pasg Cymdeithas y Beibl—aeth 120 I ddisgyblion hynaf Melin Gruffydd.






Noson ym mwyty 'Wings of Glory', Glanyrafon i godi arian i Ffynhonnau Byw.